Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Datganiad Preifatrwydd Ymgeiswyr

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg

# Datganiad Preifatrwydd Ymgeiswyr

Ar hyd y Datganiad hwn, mae “y Brifysgol”, “ni” ac “ein” yn cyfeirio at Uned Farchnata, Cofrestrfa Academaidd ac Uned Recriwtio Rhyngwladol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a’i Cyfadrannau ac Ysgolion. Mae “chi”, “eich” a/neu “testun data” yn cyfeirio at y rheini sydd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn fyfyriwr yn y dyfodol yn y Brifysgol (ar gam gwneud ymholiad ac ar gam gwneud cais).

Mae’r datganiad hwn yn esbonio sut bydd yr adrannau uchod yn y Brifysgol yn trin ac yn defnyddio’ch data personol yn ystod y broses recriwtio ac ymgeisio.

Bydd casglu data personol gennych chi’n ein galluogi ni i gael gwell dealltwriaeth o’r hyn sydd o ddiddordeb i chi. Bydd yn caniatáu i ni gadw mewn cysylltiad â chi er mwyn eich cadw’n gyfredol â’n gweithgareddau a datblygiadau, a bydd yn ein galluogi i’ch paratoi yn y ffordd orau i fod yn fyfyriwr yn y Brifysgol yn y dyfodol.

Bydd y Datganiad dilynol yn dangos sut bydd y Brifysgol yn defnyddio’ch data personol yn benodol at ddibenion derbyn a recriwtio.

Rydym yn ymrwymedig i ddiogelu eich gwybodaeth a bod yn dryloyw ynghylch y wybodaeth sydd gennym amdanoch chi. Fodd bynnag os hoffech chi ddarllen rhagor am ymrwymiad y Brifysgol i ddiogelu’ch gwybodaeth bersonol a bod yn dryloyw fel cyfangorff, cyfeiriwch at Bolisi Diogelu Data’r Brifysgol.

## Y Rheolydd Data a Manylion Cysylltu

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yw'r rheolydd data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau myfyrwyr yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 y DU a Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data (GDPR).

Mae gan y Drindod Dewi Sant Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef yn **foi@uwtsd.ac.uk**.

## Pa wybodaeth byddwn yn ei chasglu amdanoch chi?

Byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch chi wrth ryngweithio â chi fel darpar fyfyriwr yn y Drindod Dewi Sant yn y dyfodol, er enghraifft ond heb ei gyfyngu i'r canlynol: pan fyddwch yn gwneud ymholiadau, yn gofyn am brosbectws, yn anfon e-bost a/neu'n gwneud cais i astudio gyda ni. Mae'n bosibl hefyd y cawn ni wybodaeth amdanoch chi o'r tu allan i'r Brifysgol, megis gwybodaeth gan UCAS ynghylch ceisiadau UCAS israddedigion neu wybodaeth drwy ddigwyddiadau Recriwtio, yn ogystal â gwybodaeth a roddir gan ganolwyr. Mae'r mathau o wybodaeth bersonol a brosesir yn cynnwys y canlynol, er nad yw'n gyfyngedig i'r rhain:

**Casglu gwybodaeth a gyflwynir drwy ffurflenni neu drwy drydydd parti (yn cynnwys asiantau)**

- Manylion cyswllt.
- Gwybodaeth Bersonol, megis dyddiad geni at ddibenion diogelu plant a phobl dan 18 oed neu oedolion sy'n agored i niwed.
- Eich dewis iaith ar gyfer gohebiaeth, Cymraeg neu Saesneg. Caiff y wybodaeth hon ei chasglu i'n galluogi ni i gyfathrebu â chi yn eich dewis iaith ac i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 6).

  Yn achos myfyrwyr yng Nghymru, byddwn ni'n casglu gwybodaeth am eich sgiliau Cymraeg i gynorthwyo gyda chynllunio a darparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, diwallu eich anghenion dysgu, a chyflawni ein rhwymedigaethau strategol o ran y Gymraeg.
- Profiad a chyrhaeddiad addysgol blaenorol.
- Hanes cyflogaeth.
- Gwybodaeth mewnfudo (megis manylion pasbort, hanes mewnfudo a hyfedredd yn y Saesneg).
- Gwybodaeth ariannol pan fo'n ofynnol, er enghraifft, er mwyn asesu cymhwysedd ar gyfer Ysgoloriaeth neu gymhwysedd ar gyfer datganiad Cadarnhad Derbyn i Astudio.
- Gwybodaeth iechyd (yn cynnwys unrhyw anableddau) sy'n dod o dan y categorïau arbennig o ddata lle mae cydsyniad eglur yn ofynnol ar gam gwneud cais.
- Holiadur Iechyd – Addasrwydd i Ymarfer.
- Copïau o ddogfennau adnabod mae eu hangen ar gyfer gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol: Copïau o basbortau, fisâu ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Fisâu a Mewnfudo y DU a/ neu'r Swyddfa Gartref.
- Ar gyfer myfyrwyr y DU: Copïau o basbortau neu unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol er mwyn asesu statws ffioedd.

## Sut caiff eich gwybodaeth chi ei defnyddio?

Yn ystod y broses recriwtio ac ymgeisio byddwn yn defnyddio eich data personol at ddibenion asesu eich cymhwysedd i fod yn fyfyriwr yn y Drindod Dewi Sant yn y dyfodol. Mae diben y wybodaeth a brosesir yn cynnwys y canlynol, er nad yw'n gyfyngedig i'r rhain:

| Diben | Sail Gyfreithiol a Chyfiawnhad |
|---|---|
| Defnyddir ymholiadau (neu fynegiannau o ddiddordeb) a wneir i'r Brifysgol i greu cofnod o fewn ein cronfa ddata. Mae hyn yn caniatáu i ni eich arwain chi drwy gamau nesaf y broses. | **Cyfiawnhad**<br>Drwy gysylltu â ni, rydych wedi mynegi diddordeb mewn dilyn cwrs yn y Drindod Dewi Sant. Byddwn yn eich dynodi'n fyfyriwr y dyfodol yn ystod y cyfnod rydych yn 'wir ymholydd'<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae prosesu gan y Brifysgol yn angenrheidiol er mwyn cwblhau contract gyda'r testun data neu **er mwyn cymryd camau ar gais y testun data cyn gwneud contract.** |
| Defnyddir ceisiadau a gyflwynir i'r Brifysgol i asesu'ch cymhwysedd i fod yn fyfyriwr yn y Drindod Dewi Sant yn y dyfodol. (Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth yn gysylltiedig ag unrhyw wybodaeth iechyd a ddatganwyd). | **Cyfiawnhad**<br>Drwy gyflwyno cais byddwn yn eich dynodi'n fyfyriwr y dyfodol yn ystod y cyfnod rydych yn 'wir ymgeisydd'<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cwblhau contract gyda'r testun data neu er mwyn cymryd camau ar gais y testun data cyn gwneud contract. |

| Yn sgil eich cais, byddwn hefyd yn defnyddio'r canlynol: | |
|---|---|
| i) Gwybodaeth Atodol, megis Asesiadau Ffioedd ac Asesiadau Hanes Mewnfudo. | **Cyfiawnhad**<br>Er mwyn sicrhau y gwneir asesiad cywir o'ch ymholiad a/ neu eich cais, efallai byddwn yn gofyn am wybodaeth atodol ychwanegol gennych chi.<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cwblhau contract gyda'r testun data neu er mwyn cymryd camau ar gais y testun data cyn gwneud contract.<br><br>Mae angen prosesu eich data personol er mwyn cwblhau tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedwyd yn y Brifysgol. |

| | |
|---|---|
| ii) Bydd holiaduron yn angenrheidiol ar gyfer cyrsiau Prifysgol | **Cyfiawnhad**<br>Ar gyfer rhai o'n rhaglenni mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod pob myfyriwr yn addas i ymarfer o fewn ei ddewis yrfa. Felly mae gwiriadau iechyd a gwiriad gan yr heddlu'n ofynnol ar gyfer y cwrs. At hynny, byddwn yn gofyn a oes arnoch angen cymorth ychwanegol neu a oes angen i ni wneud "addasiadau rhesymol" er mwyn darparu ar gyfer eich gofynion astudio.<br><br>**FFURFLEN HOLI AM WIRIADAU IECHYD AC ANGHENION CYMORTH**<br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR i brosesu categorïau arbennig o ddata.**<br>Mae'r testun data wedi rhoi cydsyniad eglur i'r prosesu.<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cwblhau contract gyda'r testun data neu er mwyn cymryd camau ar gais y testun data cyn gwneud contract.<br><br>**GWIRIADAU'R HEDDLU**<br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cwblhau contract gyda'r testun data neu er mwyn cymryd camau ar gais y testun data cyn gwneud contract.<br><br>Mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn cwblhau tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedwyd yn y rheolydd.<br><br>Seiliau cyfreithiol ychwanegol o fewn y Ddeddf Diogelu Data ar gyfer prosesu data categorïau arbennig:<br><br>• Atodlen 1 Rhan 2 Paragraff 8 – atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon<br><br>• Atodlen 1 Rhan 2 Paragraff 9 – Diogelu'r cyhoedd rhag anonestrwydd |
| Cwynion ac Apeliadau | **Cyfiawnhad**<br>Er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch yn ystod y broses recriwtio a derbyn, mae gennym weithdrefn cwynion ac apeliadau, lle gellir gofyn am wybodaeth ychwanegol.<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn cwblhau tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedwyd yn y rheolydd. |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth yn gysylltiedig â Materion Mewnfudo | **Cyfiawnhad**<br>Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r holl fyfyrwyr sydd angen fisa i ddod i mewn i'r DU gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn rhan o'r broses ymgeisio.<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol sydd ar y rheolydd.<br><br>Mae angen prosesu eich data personol er mwyn cwblhau tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedwyd yn y Brifysgol. |
| **Cyfathrebu â chi:**<br>Byddwn yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith, Cymraeg neu Saesneg.<br><br>Yn ddibynnol ar y wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn ystod y broses recriwtio a derbyn, gellir anfon cyfathrebiadau drwy'r post, y ffôn (a ffôn symudol) neu ddulliau electronig, yn bennaf drwy e-bost.<br><br>Os derbyniwch unrhyw negeseuon diangen, byddwch yn gallu datdanysgrifio ar unrhyw adeg o unrhyw rai o'n negeseuon e-bost.<br><br>Gallwn hefyd ddefnyddio nodweddion busnes y cyfryngau cymdeithasol i gyfleu gwybodaeth berthnasol a fydd yn eich arwain chi drwy'r broses.<br><br>*Sylwer: dylai defnyddwyr platfformau'r cyfryngau cymdeithasol allu newid eu dewisiadau o fewn gosodiadau pob platfform.*<br><br>Gallwch hefyd gysylltu'n uniongyrchol os hoffech ddiweddaru'ch dewisiadau. | **Cyfiawnhad**<br>At ddibenion cyfathrebu, cydymffurfio a dadansoddi, yn unol â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Ar gyfer cyfathrebu angenrheidiol yng nghyswllt eich astudio yn y dyfodol:<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cwblhau contract gyda'r testun data neu er mwyn cymryd camau ar gais y testun data cyn gwneud contract.<br><br>Wrth anfon gwybodaeth atodol atoch a fydd yn eich arwain drwy'r broses:<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion Buddiant Dilys a ddilynir gan y rheolydd neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fydd buddiant o'r fath yn cael ei orbwyso gan fuddiant neu hawliau a rhyddid sylfaenol y testun data.<br><br>***Mae ein buddiant dilys penodol fel a ganlyn:***<br>Mae'r Brifysgol yn gallu cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau i fyfyrwyr y tu hwnt i gwmpas ei phrif nod o ddarparu addysg. Mae'n bwysig ein bod yn gallu cynnig y gwasanaethau hyn er mwyn gwella profiadau myfyrwyr.<br><br>Mae helpu myfyrwyr gymaint â phosibl yn y broses ymgeisio hefyd yn sicrhau eu bod yn cwblhau eu cais ac yn penderfynu astudio gyda ni. |
| Digwyddiadau ychwanegol a gynigiwn, megis y Gwasanaeth Codi/Cwrdd a Chyfarch yn y Maes Awyr, Cynadleddau Myfyrwyr/Athrawon ac ati. | **Cyfiawnhad**<br>Bydd dull cofrestru gan yr holl wasanaethau ychwanegol a gynigir gennym, lle bydd angen cydsynio.<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae'r Testun Data wedi rhoi cydsyniad i'r prosesu. |

| | |
|---|---|
| Cyfiawnhad | **Cyfiawnhad**<br>Mae nifer o drefniannau gwahanol o ran nawdd ac ysgoloriaeth ar gael ar hyd y broses.<br><br>Yn ddibynnol ar y math o ysgoloriaeth a gewch mae'r sail gyfreithiol yn amrywio.<br><br>Er enghraifft:<br>Os ydych wedi gwneud cais am yr ysgoloriaeth<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae'r Testun Data wedi rhoi cydsyniad i'r prosesu.<br><br>Os darparwyd yr ysgoloriaeth ar eich cyfer yn awtomatig am eich bod yn bodloni rhestr benodol o feini prawf (megis graddau) y sail gyfreithiol yw 'rheidrwydd contractiol'.<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cwblhau contract gyda'r testun data neu er mwyn cymryd camau ar gais y testun data cyn gwneud contract. |
| Dadansoddi a Phroffilio | **Cyfiawnhad**<br>Mae'n bwysig i ni allu defnyddio data at ddibenion ymchwil i'r farchnad er mwyn llywio ein gweithgarwch marchnata yn y dyfodol a chynnal cystadleurwydd yn y farchnad. Fel arfer mae hyn yn ddata dienw er mwyn dynodi/dadansoddi tueddiadau ac ati, fodd bynnag, gellir defnyddio data personol hefyd.<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion Buddiant Dilys a ddilynir gan y rheolydd neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fydd buddiant o'r fath yn cael ei orbwyso gan fuddiant neu hawliau a rhyddid sylfaenol y testun data.<br><br>***Mae ein buddiant dilys penodol fel a ganlyn:***<br>Mae'n bwysig i'r Brifysgol ddefnyddio data at ddibenion ymchwil i'r farchnad er mwyn llywio ei gweithgarwch marchnata yn y dyfodol a chynnal cystadleurwydd yn y farchnad. |

Y sail gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR y byddwn yn dibynnu arni yw cyflawni contract yn y dyfodol tra byddwch wedi'ch dynodi'n 'wir ymholydd' a/neu'n 'wir ymgeisydd'.

Diffiniadau:-

| | |
|---|---|
| 'Gwir Ymholydd' | Mae ymholydd yn wir ymholydd dim ond os nad yw wedi cyflwyno cais erbyn diwedd cyfnod ymgeisio'r flwyddyn academaidd benodol honno. Fe'i gwahoddir i optio mewn i dderbyn cyfathrebiadau pellach.<br>h.y. os ydyymholydd wedi gwneud ymholiad am flwyddyn academaidd 26/27 ac nad yw wedi cyflwyno cais erbyn dyddiad terfynol UCAS ar gyfer ceisiadau 2026, anfonir gwahoddiad ato i optio mewn. Os bydd yn penderfynu peidio ag optio mewn, caiff ei gofnod ei newid i 'peidio â chysylltu'. Fodd bynnag, caiff y data personol eu storio gan y Brifysgol tan ddiwedd y cyfnod cadw neu dderbyn cyfarwyddyd i'w dileu. |
| 'Gwir Ymgeisydd' | Mae ymgeisydd yn 'wir ymgeisydd' dim ond os nad yw wedi cofrestru erbyn diwedd cyfnod cofrestru'r flwyddyn academaidd benodol honno. Fe'i gwahoddir i optio mewn i dderbyn cyfathrebiadau pellach,<br>h.y. os ydy ymgeisydd wedi gwneud cais am flwyddyn academaidd 26/27, ac nid yw wedi cofrestru erbyn diwedd cyfnod cofrestru blwyddyn academaidd 26/27, anfonir gwahoddiad ato i optio mewn. Os bydd yn penderfynu peidio ag optio mewn, caiff ei gofnod ei newid i 'peidio â chysylltu'. Fodd bynnag, caiff y data personol eu storio gan y Brifysgol tan ddiwedd y cyfnod cadw neu dderbyn cyfarwyddyd i'w dileu. |
| Digwyddiadau ychwanegol a gynigiwn, megis y Gwasanaeth Codi/Cwrdd a Chyfarch yn y Maes Awyr, Cynadleddau Myfyrwyr/Athrawon ac ati. | **Cyfiawnhad**<br>Bydd dull cofrestru gan yr holl wasanaethau ychwanegol a gynigir gennym, lle bydd angen cydsynio.<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae'r Testun Data wedi rhoi cydsyniad i'r prosesu. |

## Pa wybodaeth byddwn ni'n ei derbyn gan drydydd partïon?

Yn rhan o'ch cais fel myfyriwr yn y Drindod Dewi Sant yn y dyfodol, gallwn dderbyn eich cais neu wybodaeth arall am eich cais o ffynonellau allanol. Mae ffynonellau'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, y canlynol:

| Data y gallwn ni eu derbyn | Ffynhonnell |
|---|---|
| Data ymgeisio, sy'n cynnwys manylion cyswllt a chyrhaeddiad, profiad gwaith, sefydliad blaenorol, data cyd- destunol a gwybodaeth am anabledd | UCAS, Prosiectau Ysgoloriaethau Ymchwil megis KESS II a Chynghorau Ymchwil y DU, Erasmus, CAB neu Sefydliadau Addysg Uwch eraill, os er enghraifft, mae'ch rhaglen astudio yn cynnwys treulio cyfnod o amser mewn sefydliad tu allan i'r Drindod Dewi Sant. |
| Tystlythyrau | Y canolwr o'ch dewis. |
| Eich statws a hanes mewnfudo | Y Swyddfa Gartref (Fisâu a Mewnfudo'r DU), y Swyddfa Dramor a Chymanwlad |
| Trawsgrifiadau (manylion rhaglenni sydd wedi'u cyflawni neu'n cael eu cyflawni mewn sefydliad arall, a'ch cyrhaeddiad) | Cyrff dyfarnu, HEDD, sefydliad arall a/neu ysgolion uwchradd. |
| Cadarnhad ynghylch gwiriadau | Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Gwiriadau'r Heddlu, ATAS |

## Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth chi?

Ni rennir eich data ag unrhyw sefydliadau y tu allan i'r Brifysgol, oni bai bod hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, pan fo'n angenrheidiol, rhennir gwybodaeth bersonol er mwyn cefnogi a darparu gwasanaeth yn gysylltiedig â'r broses recriwtio a derbyn.

Yn yr adran hon, nodir y prif sefydliadau a'r amgylchiadau mwyaf cyffredin lle rydym yn datgelu gwybodaeth am fyfyrwyr. Pan fydd hyn yn cynnwys trosglwyddiad rhyngwladol, trosglwyddir yr wybodaeth dim ond os bydd yn bodloni'r amodau a nodir o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data a deddfwriaeth Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR).
Mae ffynonellau'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, y canlynol:

| Data y gallwn ni eu rhannu | Derbynwyr |
|---|---|
| Ymholiadau (neu fynegiannau o ddiddordeb) | Gallwn rannu'ch ymholiad yn fewnol â'r Gyfadran neu Ysgol yn y Brifysgol er mwyn iddynt ymateb i chi. |
| Data ymgeisio, sy'n cynnwys manylion cyswllt a chyrhaeddiad, profiad gwaith, sefydliad blaenorol, data cyd- destunol a gwybodaeth am anabledd | Gallwn rannu'ch cais yn fewnol er mwyn i Ysgol asesu'ch cymhwysedd fel myfyriwr yn y Drindod Dewi Sant yn y dyfodol. |
| Gwybodaeth yn gysylltiedig â Materion Mewnfudo (lle bo angen) | Mae'r Brifysgol wedi ei thrwyddedu i noddi myfyrwyr mudol o dan y Llwybr Myfyrwyr. Bydd y Brifysgol yn darparu data ar gyfer y Swyddfa Gartref er mwyn cael rhif Cadarnhad Derbyn i Astudio. Mae rhif Cadarnhad Derbyn i Astudio yn galluogi myfyrwyr i wneud cais am Fisa Myfyrwyr. Bydd y Brifysgol hefyd yn darparu data am fyfyrwyr ar Fisa Myfyrwyr ar gyfer y Swyddfa Gartref a'i hadrannau er mwyn cyflawni ei dyletswyddau o dan ei thrwydded. |
| Data ymgeisio megis cymwysterau, lle bo'n berthnasol. | Mae Canolfan Gwybodaeth Genedlaethol y DU (UK ENIC) yn cynghori sefydliadau fel ni ynghylch cymharu cymwysterau rhyngwladol â lefelau fframweithiau cymwysterau'r DU. Maent yn gwneud hyn drwy asesu'r cymhwyster drwy eu porth ar-lein. |
| Data ymgeisio megis diweddariadau ar y gweithgarwch prosesu | I noddwyr a rhieni lle rhoddwyd cydsyniad. |
| Data ymgeisio | Sefydliadau Addysg Uwch eraill, er enghraifft os ydy'ch rhaglen astudio'n cynnwys treulio cyfnod mewn sefydliad y tu allan i'r Drindod Dewi Sant. |
| Bydd unrhyw ddatgeliadau eraill gan y Brifysgol yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data a GDPR, ac ystyrir eich buddiannau bob amser. | |

## Trosglwyddo Eich Gwybodaeth yn Rhyngwladol

Fel arfer ni fyddwn yn trosglwyddo unrhyw ran o'ch data personol y tu allan i'r UE. Bydd unrhyw drosglwyddo sy'n digwydd yn unol â'r GDPR.

## Am faint y caiff eich gwybodaeth chi ei chadw?

Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol yn unol â'n Hamserlen Cadw Cofnodion.

## Diogelwch eich gwybodaeth

O dan ddeddfwriaeth Diogelu Data mae'n rhaid i ni gadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Golyga hynny y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, ac y cymerir pob cam priodol i atal mynediad a datgeliad heb ganiatâd. Dim ond aelodau o'r staff y mae angen iddynt gael mynediad at rannau perthnasol neu at eich holl wybodaeth a gaiff hawl i wneud hynny. Bydd gwybodaeth amdanoch chi ar ffurf electronig yn amodol ar gyfrinair a chyfyngiadau diogelwch eraill, tra cedwir ffeiliau papur mewn mannau diogel lle rheolir mynediad.

Mae'n bosibl y gwneir rhywfaint o brosesu ar ran y Brifysgol gan sefydliad a gontractiwyd at y diben hwnnw. Bydd sefydliadau sy'n prosesu data personol ar ran y Brifysgol wedi eu rhwymo o dan rwymedigaeth gontractiol i brosesu data personol yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

## Beth yw eich hawliau chi?

Mae gennych hawl i weld eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu, i gywiro, dileu, cyfyngu a throsglwyddo eich gwybodaeth bersonol dan GDPR. Os ydych chi wedi rhoi cydsyniad i'r Drindod Dewi Sant brosesu unrhyw rai o'ch data mae gennych hefyd hawl i ddiddymu'r cydsyniad hwnnw. Mae'ch hawliau yn gynwysedig o fewn Polisi Diogelu Data'r Brifysgol.

**Dylid anfon unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig at Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol:-**

Paul Osborne
Pennaeth Diogelu Data
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Technium 1, Heol y Brenin,
Abertawe SA1 8PH
E-bost: foi@uwtsd.ac.uk

## Diweddaru eich dewisiadau

Byddwch yn gallu diweddaru eich dewisiadau ar unrhyw adeg ar-lein gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost rydych wedi'i ddefnyddio yn ystod y broses recriwtio a derbyn.

## Canlyniadau peidio â darparu'r data pan fydd hynny ar sail gofyniad statudol neu gontractiol

Yn anffodus ni fydd y Brifysgol yn gallu prosesu'ch cais os byddwch yn gwrthod darparu'r wybodaeth angenrheidiol pan fydd hynny ar sail gofyniad statudol neu gontractiol.

## Sut i wneud cwyn

Os ydych chi'n anhapus â'r modd y mae eich gwybodaeth bersonol wedi cael ei phrosesu, cewch gysylltu yn y lle cyntaf â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os byddwch yn parhau heb eich bodloni, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

**Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yma:**

Information Commissioner's Office,
Wycliffe House, Water Lane,
Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
www.ico.org.uk

## Eich cyfrifoldebau chi

Mae gennych gyfrifoldeb i gadw eich manylion personol yn gyfredol. Yn ystod eich astudiaethau, efallai y cewch fynediad at wybodaeth bersonol am bobl eraill. Mae disgwyl i chi ymdrin â hyn mewn modd cyfrifol a phroffesiynol ac mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnoch i wneud hyn o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data, yn ogystal ag unrhyw foeseg broffesiynol neu godau ymddygiad. Os rhoddir i chi wybodaeth bersonol yn gyfrinachol, disgwylir na fyddwch yn dweud wrth neb heb gydsyniad yr unigolyn, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Hefyd ni ddylech geisio dod o hyd i ddata personol pobl eraill os nad oes gennych hawl. Ystyrir camau disgyblu yn erbyn unrhyw aelod o'r Brifysgol sy'n torri Deddfwriaeth Diogelu Data neu ddyletswydd cyfrinachedd.

## Rheoli fersiynau'r ddogfen

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Adolygiad Blynyddol – drafft cychwynnol i'w ystyried gan y Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu. | Paul Osborne, Pennaeth Diogelu Data / Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn / Elin Bishop, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa | 13/08/2025 |
| 1.2 | Fersiwn derfynol – mân newidiadau wedi'u cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu. | Paul Osborne, Pennaeth Diogelu Data / Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn / Elin Bishop, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa | 03/09/2025 |
| 1.3 | Adolygiad Blynyddol – drafft cychwynnol i'w ystyried gan y Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr. | Paul Osborne, Pennaeth Diogelu Data / Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn | 05/05/26 |
| 2.0 | Fersiwn derfynol wedi'i chymeradwyo gan yr Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr. | Paul Osborne, Pennaeth Diogelu Data / Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn | 21/05/26 |

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David